Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - 4ydd enillydd

# Clwb Tennis Bwrdd Cwm Rhondda

Mae Clwb Tennis Bwrdd Cwm Rhondda yn chwarae yng Nghanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda yn Ystrad. Yn debyg i'r rhan fwyaf o glybiau, cafodd y pandemig effaith fawr arnyn nhw. Roedd Canolfan Chwaraeon Cwm Rhondda yn ganolfan frechu dros dro felly roedd mynd ati i gynnal sesiynau hyfforddi eto yn gymhleth. Ers ailgydio yn y sesiynau hyfforddi, mae'r clwb wedi mynd o nerth i nerth ac wedi ychwanegu ail noson o sesiynau hyfforddi i ddechreuwyr. Mae gan y clwb 25 o aelodau iau ac mae pob un yn gwella bob wythnos. Eu nod nesaf yw gwella'r offer hyfforddi sydd gyda nhw fel bod modd iddyn nhw groesawu rhagor o ddechreuwyr.

